

# newyddion LLAIS SIR GÂR

Carmarthenshire  
Voice

Llais  
Sir Gâr

## AROLWG PANEL 3 (Chwefror – Mawrth 2002)

Derbyniwyd 751 ateb i'r arolwg hwn, sef cyfradd o 68%.

Roedd Arolwg 3 yn gofyn am eich barn ar gael cymorth / cyngor cyfreithiol a chyfleusterau mewn llyfrgelloedd. Yn ogystal, cynhwyswyd rhai cwestiynau i fesur effeithiolrwydd ein harolwg a'r llythyr newyddion. Mae eich ymatebion i'r arolwg cyntaf wedi rhoi llawer o wybodaeth werthfawr i ni sydd wedi bod o gryn gymorth gyda'n gwaith ar nifer o faterion o bwys.

## Adran A a B – Partneriaeth Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol Sir Gaerfyrddin

- Grŵp o fudiadau unigol sy'n ymwneud â darparu, ariannu a defnyddio gwasanaethau cyngor a gwybodaeth yw Partneriaeth Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol Sir Gaerfyrddin. Crewyd y Partneriaeth er mwyn hwyluso darpariaeth y cyfryw wasanaethau yn Sir Gaerfyrddin. Roedd y partion dan sylw yn cynnwys mudiadau gwirfoddol, llywodraeth leol, cyrff statudol a chynrychiolwyr o'r sector preifat.
- Dywedodd y mwyafrif a atebodd nad oeddent wedi ceisio cymorth na chyngor ynghylch unrhyw broblem neu anghydfod yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Fodd bynnag roedd mwy na thri chwarter wedi nodi y byddent yn gwybod at bwy i fynd pe byddai ganddynt broblem ac angen cymorth / cyngor cyfreithiol.
- Roedd aelodau'r Panel wedi nodi'r llyfr ffôn fel y lle cyntaf y byddent yn chwilio am wybodaeth am gyrff oedd yn darparu cymorth / cyngor cyfreithiol.

LLYFR FFÔN

1

Papurau lleol

2

Llyfrgell

3

Rhyngwrwyd

4

Arall e.e. Canolfan Gyngori,  
Cyfeillion a Theulu, Cyfreithiwr

5

Meddygfa

6

Y dulliau a ffeffir yn ôl trefn blaenoriaeth o gael hyd i wybodaeth am gyrff sy'n rhoi cymorth / cyngor cyfreithiol



# PANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN

**Adran A a B – Partneriaeth Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol Sir Gaerfyrddin (parhad)**

- Pan ofynnwyd sut y byddent yn hoffi derbyn gwybodaeth am ffynonellau o gymorth / cyngor cyfreithiol dywedodd aelodau'r panel y byddai'n well ganddynt ddefnyddio llinell ffôn ac y byddai'n well ganddynt i'r cymorth / cyngor fod ar ffurf llinell gymorth di-dâl.

Eglurodd Simon Pickthall o'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol sut y defnyddir canlyniadau Arolwg Panel 3 i lunio'r gwasanaeth yn y dyfodol.

*"Comisiynodd y Bartneriaeth Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, mewn cydweithrediad agos â'r awdurdod lleol, Banel Dinasyddion Sir Gaerfyrddin i asesu'r mathau o wasanaethau cyngor yr oedd pobl Sir Gaerfyrddin yn dymuno eu derbyn. Bydd y canlyniadau hyn yn galluogi'r Bartneriaeth i gyfeirio adnoddau at y meysydd mwyaf brys a phriodol. Dylai hyn sicrhau fod pobl Sir Gaerfyrddin yn derbyn y gwasanaethau y maent eu heisiau, a bod y rheini'n cael eu darparu gan ddarparwyr cyngor o safon ar yr adegau sydd fwyaf cyfleus iddynt.*

*Mae'n amlwg bellach fod yn rhaid i wasanaethau gael eu darparu mewn gwahanol ffyrdd er mwyn sicrhau fod y nifer mwyaf posibl o bobl yn gallu derbyn y cyngor y maent ei angen. O ganlyniad, archwilir amrywiol ffyrdd o ddarparu'r cyfryw wybodaeth.*

*O dderbyn y cyngor cywir gall pobl Sir Gaerfyrddin fod yn sicr eu bod yn derbyn y lefel gywir o fudd-daliadau, eu bod yn byw mewn tai addas ac nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu beichio'n ormodol gan ddyledion."*

Am ragor o wybodaeth am y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol ewch os gwelwch yn dda i [www.legalservices.gov.uk](http://www.legalservices.gov.uk)

- 1 LLINELL GYMORTH
- 2 Taflenni a chyfarwyddiadur papur
- 3 Posterï
- 4 Rhyngrwyd / Gwefan
- 5 E-bost


Y dulliau a ffeirir yn ôl trefn blaenoriaeth o gael mynediad i wybodaeth am gyrrf sy'n rhoi cymorth / cyngor cyfreithiol.

**Adran C - Gwasanaeth Llyfrgelloedd**

Mae gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn Sir Gaerfyrddin hanes o wrando ar farn a galwadau lleol, a gwnaed newidiadau i'r gwasanaeth mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a rhai nad ydynt yn ei ddefnyddio.

Mae'r cwestiynau a ofynnwyd gennym wedi cynorthwyo'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd i wneud penderfyniadau am gyfleusterau a gwasanaethau yn y dyfodol a sut y gall wella'r cyhoeddusrwydd a roddir i'r cyfryw gyfleusterau a gwasanaethau.

O'r 27 gwasanaeth a restrwyd, nododd aelodau'r Panel yn glir pa 8 gwasanaeth fyddai'n eu hannog i ddechrau defnyddio'r gwasanaethau llyfrgell neu i ddefnyddio'r gwasanaeth yn fwy aml. Yr 8 gwasanaeth mwyaf poblogaidd oedd:



# AROLWG PANEL 3 (Chwefror – Mawrth 2002)


## Adran D - Pa mor effeithiol yw'r Arolwg a'r Llythyr Newyddion?

Rydym hefyd wedi gofyn rhai cwestiynau er mwyn gweld pa mor effeithiol yw'r arolwg a'r llythyr newyddion. Mae'n ymddangos eich bod, ar y cyfan, yn fodlon gyda'r ddaau.

### AROLWG


Pa mor fodlon oeddech chi gyda geiriad yr arolwg hwn?

- Pan ofynnwyd, dywedodd mwy na thri chwarter ohonoch (96.1%) eich bod yn fodlon gyda geiriad Arolwg 3.



Pa mor fodlon oeddech chi gyda diwyg yr arolwg hwn?


- Dywedodd y mwyafrif ohonoch (97.6%) eich bod yn fodlon gyda diwyg Arolwg 3.



### LLYTHYR NEWYDDION


Pa mor fodlon oeddech chi gyda'r manylion oedd yn llythyr newyddion y Panel Dinasyddion?

- Pan ofynnwyd, roedd mwy na thri chwarter ohonoch, (94.7%) wedi nodi eich bod yn fodlon gyda'r manylion oedd yn y llythyr newyddion.




Yn gyffredinol, pa mor fodlon oeddech chi gyda llythyr newyddion y Panel Dinasyddion?

- Yn gyffredinol, dywedodd 95.5% ohonoch eich bod yn fodlon gyda llythyr newyddion y Panel Dinasyddion.



A oedd canlyniadau'r arolygon blaenorol yn hawdd i'w deall?

- Dywedodd y mwyafrif ohonoch (95.4%) fod canlyniadau'r arolygon blaenorol yn hawdd i'w deall.



## Rhifynnau'r Dyfodol

- Pan ofynnwyd i chi awgrymu materion y dymuned gael eich holi yn eu cylch mewn arolygon yn y dyfodol, roedd yr ymateb yn anhygoel – **gwnaed awgrymiadau gan fwy na 230 ohonoch!**

Ymysg y materion mwyaf poblogaidd oedd:

### Cyngor Sir Caerfyrddin

Casglu ysbwriel / Ailgylchu  
Glendid ardaloedd / strydoedd  
Trafnidiaeth Gyhoeddus  
Gwasanaethau i'r henoed  
Gwasanaethau plant  
Addysg / Ysgolion / Triwantiaeth  
Cost democratiaeth

### Heddlu Dyfed – Powys

Plismona Cymunedol  
Patrolau yr Heddlu (patrolau ar droed ac mewn ceir)  
Diogelwch ar y Ffyrdd  
Ymddygiad pobl ifanc a sut i'w wella

### Grŵp Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin

Meddygon Teulu ac ymweliadau cartref  
Meddygon Teulu  
Amseroedd aros  
Effeithiolrwydd Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys

## BYDDWN

Yn defnyddio eich awgrymiadau manwl mewn ymateb i'r cwestiwn hwn er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar feysydd y mae gennych ddiddordeb ynddynt mewn arolygon yn y dyfodol.

## AROLWG PEDWAR

Mae'r arolwg sydd wedi'i amgáu gyda'r llythyr hwn yn holi am weithgareddau hamdden er mwyn i Gyngor Sir Caerfyrddin allu teilwra ei gyfleusterau a'i wasanaethau yn unol â hynny. Rydym hefyd yn gofyn am eich barn ar rai o'r gwasanaethau a ddarperir gan Adain Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor a Chynllun Iaith Diwygiedig y Cyngor.

I'n galluogi i barhau i wrando a gweithredu ar eich barn a fyddech gystal â dychwelyd arolwg pedwar yn yr amlen **RHADBOST** a ddarparwyd.

## ADBORTH

Cofiwch ddweud wrthym am eich syniadau fel y gallwn barhau i wella – Os dymunwch wneud sylw ar unrhyw agwedd ar Banel Dinasyddion Sir Gaerfyrddin, cysylltwch â:

### Ruth Lake

Cydgysylltydd Ymgynghori  
Uned Gyfathrebu  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
Neuadd y Sir  
Caerfyrddin  
SA31 1JP

Rhif ffôn:  
**(01267) 224469**

Ffacs:  
**(01267) 221737**

E-bost:  
**RLake@sirgar.gov.uk**

